



# HAVE YOUR SAY

## Changes to: Rhondda Fach Leisure Centre

The Council are proposing to invest £500,000 in **Rhondda Fach Leisure Centre** to change it in to a sustainable dry side leisure facility, concentrating on fitness and indoor sports.

The proposed investment would modernise the facilities provided through the development of a new fitness suite and by converting part of the building into an indoor 3G surface to accommodate a 5-a-side football and rugby training facility.

The development of a new fitness suite, which would provide a unique fitness offer and improve the sustainability of the centre, would require the closure of the swimming pool.

### What exactly are we proposing?

- A new fitness facility
- A new indoor 3G sports pitch
- Closure of the swimming pool and increasing the swimming capacity nearby in other leisure facilities within the Rhondda area
- Development partnerships with local sporting clubs to create sporting pathways
- New Council office accommodation
- Working with Ferndale School to improve access to the pool

### What are the options?

- **Option 1:** To make changes and improve the current leisure offer at the facility
- **Option 2:** Leave the facility underutilised

### Why are we proposing this?

The swimming pool is significantly underused in comparison with other pools. The Council plans to increase the swimming capacity nearby in other leisure facilities, within the Rhondda area. The size of the facility also allows for alternative use in addition to leisure, such as office accommodation. The £0.5m investment proposes a radical reconfiguration of the facility, to ensure it is not only fit-for-purpose but has a sustainable position in the Council's wider leisure offer moving forward.

### How Can I have my say?

To have your say email [consultation@rctcbc.gov.uk](mailto:consultation@rctcbc.gov.uk) or visit [www.rctcbc.gov.uk/currentconsultation](http://www.rctcbc.gov.uk/currentconsultation) or drop in and see us at **Rhondda Fach Leisure Centre 4pm-8pm on the 19th October.**





# DWEUD EICH DWEUD

## Newidiadau i: Ganolfan Chwaraeon Cwm Rhondda Fach

Mae'r Cyngor yn cynnig buddsoddi £500,000 yng **Nghanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda Fach** er mwyn ei thrawsnewid hi'n ganolfan chwaraeon sych a chynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar ffitrwydd a chwaraeon dan do.

Byddai'r buddsoddiad arfaethedig yma'n moderneiddio'r cyfleusterau sydd ar gael drwy greu cyfleuster ffitrwydd newydd a throi rhan o'r adeilad yn gae chwaraeon 3G dan do. Bydd hwn yn ddigon mawr i gynnal hyfforddiant pêl-droed a rygbi 5-bob-ochr arno.

Byddai'r cyfleuster ffitrwydd newydd yn cynnig darpariaeth unigryw, a byddai'n gwella cynaliadwyedd y ganolfan. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid cau'r pwll nofio.

### Beth ydyn ni'n ei gynnig?

- Cyfleuster ffitrwydd newydd sbon
- Cae chwaraeon 3G dan do newydd sbon
- Cau'r pwll nofio a gwella capasiti pyllau nofio cyfagos yng Nghwm Rhondda
- Partneriaethau datblygu â chlybiau chwaraeon lleol i greu llwybrau tuag at chwaraeon
- Swyddfeydd newydd i'r Cyngor
- Gweithio gydag Ysgol Glynrhedynog i wella mynediad i'r pwll nofio.

### Beth yw'r opsiynau?

- **Opsiwn 1:** Gwneud y newidiadau a gwella'r ddarpariaeth hamdden yn y ganolfan
- **Opsiwn 2:** Parhau i danddefnyddio'r ganolfan

### Pam rydyn ni'n cynnig hyn?

Caiff y pwll nofio ei danddefnyddio'n sylweddol o'i gymharu â phyllau nofio eraill. Bwriad y Cyngor yw gwella capasiti'r pyllau nofio mewn canolfannau hamdden eraill yn ardal Cwm Rhondda. Yn ogystal â hynny, mae modd defnyddio rhywfaint o'r adeilad at ddibenion eraill, fel swyddfeydd. Mae'r buddsoddiad o £0.5m yn cynnig ail-ddylunio'r ganolfan er mwyn sicrhau ei bod hi'n addas at y diben ac yn gynaliadwy wrth edrych tua'r dyfodol.

### Sut mae modd dweud eich dweud?

Er mwyn dweud eich dweud, e-bostiwch [ymgynggori@rctcbc.gov.uk](mailto:ymgynggori@rctcbc.gov.uk) neu ewch i

[www.rctcbc.gov.uk/currentconsultation](http://www.rctcbc.gov.uk/currentconsultation)

neu alw heibio i **Ganolfan Chwaraeon Cwm Rhondda Fach 4pm-8pm ar 19 Hydref.**

